Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Llais a Dewis

Hawl arfaethedig i blant apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

Ymgynghoriad

Dogfen ymgynghori Rhif: 051/2008
Dyddiad cyhoeddi: 23 Mai 2008
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 3 Hydref 2008

Llais a Dewis

Cynulleidfa

Plant a Phobl Ifanc; Comisiynydd Plant Cymru; Awdurdodau Lleol; Awdurdodau Esgobaethol; Cyrff Gwirfoddol; Seicolegwyr Addysgol; Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc; Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; Gwasanaethau Plant, Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol Cymdeithas y Gyfraith, Llywydd TAAAC, Gwasanaethau Cymdeithasol, Undebau'r Athrawon, y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, CLlLC; partneriaid sy'n ymwneud ag Anghenion Addysgol Arbennig, a sampl o 10% o ysgolion.

Trosolwg

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo lle bo'n bosibl i gynyddu cyfranogiad plant a phobl ifanc yn y prosesau a'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Diben yr ymgynghoriad hwn yw rhoi gwybodaeth a cheisio barn ynghylch sut gallwn ddatblygu'r mecanweithiau angenrheidiol a fydd yn galluogi plant i apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC).

Camau i'w cymryd

Ymatebion i Ymgynghoriad-AAA@cymru.gsi.gov.uk erbyn 3 Hydref 2008.

Rhagor o wybodaeth

Llion Hughes
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3003
Ffacs: 029 2080 1044
E-bost: SEN-Consultation@wales.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Gellir cael mwy o wybodaeth a chopïau ychwanegol gan Llion Hughes (gweler y manylion cyswllt uchod).

Dogfennau cysylltiedig

Cymru'n Un (2007)
Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg a Hyfforddiant) 2008
Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002
Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002)
Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001

© Hawlfraint y Goron Mai 2008
D0590809

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Papur Ymgynghori

Cynnig i Roi'r Hawl i Blant Apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

1 CYFLWYNIAD

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig lle bynnag y bo modd i gynyddu nifer y plant a phobl ifanc sy'n cyfrannu at y prosesau a'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Rydym bellach yn eich gwahodd i roi eich barn ar sut y gallwn ddatblygu'r dulliau sydd eu hangen i alluogi plant i apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC).

Yn gyntaf cynigiodd y diweddar Peter Clarke, pan oedd yn Gomisiynydd Plant Cymru y dylai plant ag anghenion addysgol arbennig gael yr hawl i apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) mewn sefyllfaoedd lle y bydd rhiant, am ba reswm bynnag, yn penderfynu peidio ag arfer ei hawl ei hun fel rhiant i apelio.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru bellach yn cynnig y dylai plant ag Anghenion Addysgol Arbennig gael yr hawl i apelio i TAAAC. Mae'r cynnig hwn yn cydsynio ag un o "Nodau Craidd" Llywodraeth y Cynulliad: i sicrhau y caiff pob plentyn ei glywed a'i drin â pharch. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i sicrhau mwy o gyfleoedd yn y broses apelio i ystyried barn plant p'un a wnaed yr apêl ganddynt hwy neu gan eu rhieni.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cynulliad Cymru wneud Mesurau'r Cynulliad mewn perthynas â'r "materion" a restrir ym Maes 5 o Ran 1 i Atodlen 5 y Ddeddf honno. Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg a Hyfforddiant) 2008 a wnaed yn ddiweddar yn mewnosod "matter 5.17" ym Maes 5 o Ran 1 i Atodlen 5, fel a ganlyn:

Matter 5.17

Education and training for –

(a) persons who have greater difficulty in learning than the majority of persons of the same age as those persons;

(b) persons who have, or have had –

(i) a physical or mental impairment, or

(ii) a progressive health condition (such as cancer, multiple sclerosis or HIV infection) where it is at stage involving no physical or mental impairment.

The matter does not include arrangements for persons to travel to and from the places where they receive education or training.

Bellach mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'r pŵer i ddeddfu mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Diben y papur ymgynghori hwn yw ymgynghori ar sut y gallai cynnig o'r fath weithio.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod tri phrif reswm dros ddatblygu deddfwriaeth sy'n rhoi'r hawl i blant apelio i TAAAC:

Yn gyntaf, i roi mynegiant ymarferol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ("Confensiwn y Cenhedloedd Unedig" ac yn benodol Erthygl 12, sy'n datgan:

1. *Parties shall assure to the child who is capable of forming his or her own views the right to express those views freely in all matters affecting the child, the views of the child being given due weight in accordance with the age and maturity of the child.*

2. *For this purpose, the child shall in particular be provided the opportunity to be heard in any judicial and administrative proceedings affecting the child, either directly, or through a representative or an appropriate body, in a manner consistent with the procedural rules of national law.*

Yn ail, i roi sicrwydd ychwanegol y gall TAAAC ystyried anghenion plant. Mae trefniadau presennol yn dibynnu ar y rhagdybiaeth y bydd asiantaethau statudol yn gymwys o ran eu hymarfer a'u prosesau gweinyddu ac y bydd rhieni yn gweithredu er budd eu plant. Gallai fod peryglon posibl i rai pobl pan fydd un neu ddau o'r hanfodion hyn ar goll.

Yn drydydd, i leihau pryderon y gallai fod rhai rhieni nad ydynt yn teimlo'n fodlon, yn hyderus nac yn ddigon cymwys i ddilyn apêl eu hunain, hyd yn oed gyda chymorth. Mewn sefyllfaoedd o'r fath mae perygl na chaiff anghenion addysgol y plentyn eu diwallu yn llawn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi'r egwyddor o roi'r hawl i blant apelio mewn perthynas â'r sail bresennol lle y gall rhiant apelio o dan Ddeddf Addysg 1996. Yn y papur ymgynghori hwn, rydym yn edrych ar y materion sy'n gysylltiedig â hawl i apelio o'r fath a'r cwestiynau allweddol sy'n deillio ohoni. Mae'r ddogfen hon yn sail i'r broses ymgynghori â rhieni, gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb. Mae fersiwn byrrach o'r ddogfen hon wedi'i gyhoeddi hefyd i blant a phobl ifanc fel y gallwn geisio eu barn. Byddwn hefyd yn ymgynghori â phlant a phobl ifanc ar ffurf cyfres o weithdai a hwyluswyd. Bydd manylion am y rhain ar gael ar wefan Llywodraeth y Cynulliad: http://www.cynulliadcymru.org
ac yn CLIC, http://www.clicarlein.co.uk

Byddwn yn dechrau drwy ddisgrifio natur a graddau anghenion addysgol arbennig ("AAA") yng Nghymru, a rhoi crynodeb o'r broses bresennol o asesu a chreu datganiadau anghenion addysgol arbennig ynghyd â disgrifiad o swyddogaeth a gweithgarwch apelio'r TAAAC. Yna byddwn yn diffinio'r hawl arfaethedig i apelio a'r sail a fydd yn berthnasol iddi. Mae gweddill y ddogfen yn cynnwys dwy adran a fydd yn rhoi sylw i'r canlynol: cymhwysedd plant a phobl ifanc i fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau yn ymwneud â'u bywydau; a beth yw prif oblygiadau ymarferol yr hawl hon i apelio.

Mae'r ddwy adran olaf hyn yn cynnwys crynodeb o'r prif faterion, a chwestiynau lle yr ydym yn ofyn am sylwadau. Yn ogystal mae cyfle i ychwanegu unrhyw farn neu sylwadau ychwanegol ar ddiwedd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad.

Drwy'r ddogfen hon defnyddir y term 'plentyn' i olygu plentyn neu berson ifanc o dan bedair ar bymtheg oed, a defnyddir y term 'rhiant' i olygu'r oedolyn neu'r asiantaeth sydd â "chyfrifoldeb rhiant" dros blentyn.

2 CEFNDIR

2.1 Beth yw anghenion addysgol arbennig? Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud

Cyfeiriwn at anghenion addysgol arbennig drwy'r ddogfen hon, nid at "Anghenion Dysgu Ychwanegol" (y mae AAA yn fath ohonynt). Ar hyn o bryd mae'r gyfraith yn darparu ar gyfer Tribiwnlys AAA, nid Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol a hawl i apelio am AAA plentyn.

Mae Deddf Addysg 1996 (a312) yn dweud bod gan blant anghenion addysgol arbennig os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n golygu bod angen darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer. Mae gan blant anhawster dysgu:

(a) os cânt fwy o anawsterau i ddysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oedran,
(b) os oes ganddynt anabledd sydd naill ai'n eu hatal neu'n eu rhwystro rhag defnyddio'r math o gyfleusterau addysgol a ddarperir fel arfer i blant o'r un oedran mewn ysgolion yn ardal yr awdurdod addysg lleol, neu
(c) os ydynt o dan bump oed ac os yw'r diffiniad yn (a) neu (b) uchod yn berthnasol iddynt, neu os byddai'n berthnasol iddynt pe na wnaed darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer.

Mae darpariaeth addysgol arbennig yn golygu:

- yn achos plentyn dwy oed neu'n hŷn, darpariaeth addysgol sy'n ychwanegol at y ddarpariaeth addysgol a wneir yn gyffredinol i blant o'r un oedran â hwy mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod addysg lleol (ar wahân i ysgolion arbennig) neu ysgolion a ariennir â grantiau yn eu hardal neu sy'n wahanol i'r ddarpariaeth addysgol hon
- yn achos plentyn o dan ddwy oed, darpariaeth addysgol o unrhyw fath.

Mae manylion am y ffordd y caiff y gyfraith ei rhoi ar waith wedi'u cynnwys yng Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2002. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi'n amlwg na ellir honni bod categorïau cadarn a phendant o ran angen addysgol arbennig. Mae'n pwysleisio bod pob plentyn yn unigryw ac y dylai ymateb unrhyw awdurdod addysg lleol (AALl) adlewyrchu amgylchiadau penodol y plentyn hwnnw.

Yn ôl y Cod Ymarfer, mae gan blant anghenion a gofynion a allai fod yn berthnasol i o leiaf un o'r pedwar maes a nodir isod, a bydd gan lawer o blant anghenion cysylltiedig. Dylid ystyried effaith y rhain ar allu plentyn i weithio, dysgu a llwyddo. Y meysydd y mae angen eu hystyried yw:

- Anghenion o ran cyfathrebu a rhyngweithio.
- Anghenion gwybyddol a dysgu.
- Anghenion ymddygiadol, emosiynol a datblygiad cymdeithasol.
- Anghenion synhwyrol a/neu gorfforol.

Mae tua 650,000 o blant yng Nghymru y bydd gan tua un o bob pump (130,000) ryw fath o angen addysgol arbennig. Bydd gan tua 12.5 y cant o'r rhain, sef amcangyfrif o 16,250 o blant - neu 2.5 y cant o'r holl blant sy'n byw yng Nghymru - ddatganiad

anghenion addysgol arbennig ar unrhyw adeg. Caiff y rhan fwyaf o'r plant hyn eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd.

2.2 Y broses o asesu a pharatoi Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig

Er y caiff anghenion addysgol arbennig y rhan fwyaf o blant eu diwallu mewn lleoliadau prif ffrwd ar ffurf Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy neu Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, mae gan awdurdodau addysg lleol ddyletswydd gyfreithiol i nodi a gwneud asesiad statudol o'r plant hynny y maent yn gyfrifol amdanynt sydd ag anghenion addysgol arbennig. Os bydd angen i'r AALl benderfynu ar ddarpariaeth addysgol arbennig plentyn yn dilyn yr asesiad hwnnw, mae'n rhaid i'r AALl wneud Datganiad o anghenion addysgol arbennig y plentyn a'i gynnal.

Gall cais am asesiad gael ei wneud gan ysgol plentyn, rhiant neu asiantaeth arall. Ar ôl ystyried cais, mae'n rhaid i'r AALl ystyried yn gyntaf p'un a ddylai gynnal asesiad ai peidio. Os bydd AALl yng Nghymru yn gwrthod cytuno â chais rhiant, ysgol neu asiantaeth arall am asesiad, yna mae gan rieni'r plentyn yr hawl i apelio i'r TAAAC.

Fodd bynnag, ni fydd asesu statudol ynddo'i hun bob amser yn arwain at ddatganiad. Y ffactor allweddol o ran penderfynu a ddylid cwblhau datganiad yw p'un a ellir darparu'r ddarpariaeth addysgol arbennig sydd ei hangen i ddiwallu anghenion y plentyn yn rhesymol gyda'r adnoddau sydd ar gael fel arfer i ysgolion prif ffrwd a lleoliadau addysg gynnar yn yr ardal. Os bydd AALl, ar ôl adolygu tystiolaeth o asesiad, yn penderfynu nad oes angen datganiad, mae gan rieni'r plentyn yr hawl i apelio i'r TAAAC. Mae'n rhaid i'r AALl hysbysu'r rhieni o'u hawl i apelio a'r amserlen briodol ar gyfer cyflwyno apêl: o fewn deufis i dderbyn y penderfyniad.

Mae angen i ddatganiad o anghenion addysgol arbennig gynnwys y canlynol:

- Disgrifiad o holl anawsterau dysgu plentyn a'r anghenion asesedig a nodwyd yn ystod yr asesiad statudol ynghyd â disgrifiad o'r ffordd y mae'r plentyn yn cyflawni ar hyn o bryd - yr hyn y gall y plentyn ei wneud a'r hyn na all ei wneud.
- Y ddarpariaeth addysgol arbennig a nodwyd i ddiwallu'r anghenion asesedig yn benodol.
- Y math o ysgol ac unrhyw ysgol benodol y mae'r AALl yn ei hystyried yn briodol ar gyfer y plentyn, neu drefniadau'r AALl i ddarparu addysg mewn lleoliad ar wahân i ysgol sy'n briodol ym marn yr AALl.

Mae terfynau amser penodedig ar gyfer cynnal y rhannau gwahanol o'r broses gwneud asesiadau statudol a datganiadau fel arfer. Er enghraifft, ni ddylai'r cyfnod o dderbyn cais am asesiad statudol neu o roi hysbysiad i rieni y caiff asesiad ei gynnal hyd at adeg cyhoeddi copi terfynol y datganiad fod yn fwy na 26 wythnos fel arfer.

Mae'r egwyddor o gynnwys plant ym mhob proses yn ymwneud ag asesu a gwneud penderfyniadau cyn apêl yn arfer cyfarwydd. Mae Pennod 3 o'r Cod Ymarfer yn nodi'n amlwg bod tystiolaeth o safbwynt y plentyn yn hanfodol yn ystod pob cam o'r broses asesu anghenion addysgol arbennig hyd at a chan gynnwys yr adeg y cyflwynir tystiolaeth i'r Tribiwnlys.

Fel rhan o'r broses apelio bresennol, mae'n ofynnol o dan Reoliadau Tribiwnlys AAA 2001 (fel y'i diwygiwyd) i AALlau geisio sylwadau'r plentyn ac yn eu cyflwyno - neu gyflwyno rheswm pam na allent wneud hynny - er nad oes unrhyw ofyniad tebyg ar y rhieni i nodi eu dealltwriaeth o sylwadau'r plentyn.

2.3 Rôl Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru a gweithgarwch apelio

Sefydlwyd Tribiwnlys AAA yn 1994 fel corff annibynnol i gyflafareddu apeliadau yn deillio o anghydfodau rhwng rhieni plant ag anghenion addysgol arbennig ac AALlau yng Nghymru a Lloegr. Sefydlodd Deddf Addysg 1996 hawl rhieni i apelio i'r Tribiwnlys. Roedd y broses o roi Rhan II o Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd ar waith ym mis Medi 2002 yn cynnwys ymestyn cylch gwaith y Tribiwnlys i ystyried honiadau penodol o wahaniaethu ar sail anabledd a wnaed gan rieni. Yn 2003 datganolwyd trefniadau yng Nghymru a sefydlwyd y TAAAC fel awdurdod ar wahân.

Gall y Tribiwnlys dderbyn apeliadau am AAAau a/neu honiadau o wahaniaethu ar sail anabledd mewn perthynas â "chyrff cyfrifol" (yn nodweddiadol cyrff llywodraethu ysgolion). Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (fel y'i diwygiwyd) yn diffinio person anabl fel rhywun sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar ei allu ef neu ei gallu hi i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Ni ddylai ysgolion drin disgyblion yn llai ffafriol oherwydd eu hanabledd heb fod cyfiawnhad dros hynny. Mae'n rhaid hefyd iddynt wneud addasiadau rhesymol fel na fydd disgyblion anabl o dan anfantais o'u cymharu â disgyblion nad ydynt yn anabl. Ni ddylai ysgolion wahaniaethu yn erbyn disgyblion anabl o ran eu trefniadau derbyn, yr addysg a'r gwasanaethau cysylltiedig y maent yn eu derbyn, nac mewn perthynas â gwaharddiadau o'r ysgol. Bydd paneli apelio addysg leol yn ystyried honiadau o wahaniaethu mewn perthynas â derbyniadau i ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod addysg lleol (AAA) a gwaharddiadau parhaol o ysgolion. Bydd y Tribiwnlys yn gwrando'r holl honiadau eraill am ysgolion o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Y Ddeddf).

Nid yw'r papur ymgynghori hwn yn ymdrin â hawl plentyn i wneud honiadau mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd i'r TAAAC. Ond rydym yn dueddol o ystyried a ddylai'r honiadau hyn fod yn rhan o'n cynigion.

Cwestiwn 1: A ydych o'r farn y dylem ystyried ymestyn yr hawl fel y gall plant wneud honiadau mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd drostynt eu hunain?

Fel rhan o'r broses apelio bresennol, mae Rheoliadau Tribiwnlys AAA 2001 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i AALlau geisio sylwadau'r plentyn a'u cyflwyno - neu gyflwyno rheswm pam nad ydynt wedi gwneud hynny. Nid oes unrhyw ofyniad tebyg ar rieni i ddatgan eu dealltwriaeth o sylwadau eu plentyn.

Mae'r un rheoliadau hefyd yn caniatáu i blentyn fynd i wrandawiadau preifat. Yn ogystal, mae gan y TAAAC y disgresiwn i:

> *"Ganiatáu i'r plentyn roi tystiolaeth ac annerch y Tribiwnlys ar destun yr hawliad.*

Mae nifer yr apeliadau i'r TAAAC yn gymharol fach. Mae'r rhan fwyaf o apeliadau a dderbynnir gan TAAAC yn deillio o achosion (i) lle y bydd AALl yn gwrthod cynnal asesiad o anghenion addysgol arbennig (ii) lle y bydd AALl yn gwrthod rhoi datganiad ar ôl asesu anghenion addysgol arbennig, neu (iii) lle y bydd anghydfod rhwng rhieni am gynnwys y datganiad. Yn 2006/07, roedd 50 o apeliadau cofrestredig yn seiliedig ar achosion lle y gwrthodwyd asesu neu roi datganiad, sy'n cyfateb i tua 0.04 y cant o'r holl blant ag anghenion addysgol arbennig. Roedd 65 o apeliadau cofrestredig hefyd yn seiliedig ar gynnwys datganiad yn 2006/07, sy'n cyfateb i tua 0.4 y cant o'r holl blant â datganiadau. Yn yr un cyfnod, gwnaethpwyd saith honiad yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd.

Ers 2003, mae dros hanner yr holl apeliadau a gofrestrwyd wedi methu â chyrraedd gwrandawiad; maent naill ai wedi cael eu tynnu'n ôl gan rieni neu eu hildio gan yr AALl cyn i wrandawiad TAAAC gael ei gynnal. O blith yr apeliadau hynny lle y cynhaliwyd gwrandawiad, penderfynwyd ar tua 80 y cant ohonynt o blaid y rhieni, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol.

Mae tua dwy apêl o bob tair yn ymwneud â phlant 11 oed neu iau. Mae'r ganran hon wedi aros yn gymharol gyson ers i TAAAC ddod i fodolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys nifer sylweddol o apeliadau yn ymwneud â darpariaeth ar gyfer trosglwyddo i addysg uwchradd.

3 HAWL ARFAETHEDIG PLANT I APELIO I DRIBIWNLYS ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG CYMRU

Cynigir y bydd gan blant yr un hawliau i apelio i'r TAAAC pan fodlonir tri o'r amodau canlynol:

- Bydd cais am asesiad statudol, o leiaf, wedi'i wneud eisoes gan riant, ysgol neu asiantaeth arall.
- Bydd rhiant plentyn wedi penderfynu, am ba reswm bynnag na fydd yn arfer ei hawl fel rhiant i apelio.
- Bydd y plentyn yn gymwys i wneud apêl.

Cynigir na fydd y ffaith bod plentyn wedi bodloni prawf cymhwysedd yn golygu bod angen iddo baratoi ei achos ei hun a'i gyflwyno. Cynigiwn y gall plentyn cymwys ddewis trefnu i eiriolwr a/neu gynrychiolydd wneud hyn ar ei ran.

Cynigir hefyd y bydd y sail bresennol y gall rhiant apelio yn cael ei hymestyn i blant. Mae'r sail hon yn nodi:

1. Na fydd yr AALl yn cynnal asesiad ffurfiol o anghenion addysgol arbennig plentyn;
2. Bod yr AALl yn gwrthod cyhoeddi datganiad o anghenion addysgol arbennig plentyn;

Neu lle y caiff datganiad ei gyhoeddi neu ei newid:

3. Yr anghenion a nodir mewn datganiad a'r cymorth arbennig a gynlluniwyd i ddiwallu'r anghenion hynny (rhan 2 a rhan 3 o'r datganiad);
4. Enw'r ysgol neu ddisgrifiad ohoni lle y caiff y plentyn ei leoli (rhan 4 o'r datganiad);
5. Na fydd yr AALl yn enwi ysgol;
6. Bod AALl yn gwrthod newid yr ysgol a gynhelir a enwyd mewn datganiad, lle y bydd y datganiad hwnnw ar waith am flwyddyn o leiaf;
7. Bod AALl yn gwrthod ailasesu anghenion lle na chynhaliwyd asesiad newydd o fewn y chwe mis blaenorol;
8. Bod AALl yn penderfynu peidio â diwygio datganiad ar ôl ei ailasesu;
9. Bod AALl yn penderfynu canslo datganiad

Cynigir y caiff hawliau rhiant neu AALl i (i) gofyn i'r Tribiwnlys adolygu ei benderfyniad, am resymau technegol yn bennaf ac i (ii) apelio i'r Uchel Lys (ac i'r Uwch Dribiwnlys yn y dyfodol agos) ar bwynt cyfreithiol eu hymestyn i gynnwys plant.

Cynigiwn y bydd Gwasanaethau Eiriolaeth Arbenigol Annibynnol ar gael i blant ag AAA o 2009, a fydd â rôl o ran rhoi cymorth eiriolaeth, lle y bydd plentyn yn gofyn amdano neu mewn amgylchiadau diffiniedig eraill.

4 CYMHWYSEDD A HAWLIAU PLANT

Mae hawl plant i apelio, cwyno neu gael cynrychiolaeth yn tueddu i fod yn amodol mewn rhyw ffordd. Efallai y byddant y amodol ar sail oedran yn unig felly po hynaf yr ydych, y lleiaf amodol y bydd eich hawliau. I blant iau, mae prawf cymhwysedd yn ffordd fwy cyffredin o ddangos p'un a yw hawliau yn amodol. Mae'r prawf Cymhwysedd Fraser er enghraifft, yn faen prawf gweddol gyfarwydd. Yn y rhan hon o'r papur, edrychwn ar gymhwysedd a sut y gallai fod yn berthnasol i'r hawl i apelio i TAAAC.

4.1 Beth mae cymhwysedd yn ei olygu?

Yn y bôn, mae cymhwysedd yn golygu gallu plentyn i fod yn ymwybodol o'i amgylchiadau a'i allu i adnabod y dewisiadau sydd ar gael iddo. Gan ddibynnu ar natur a chanlyniadau penderfyniad, gallai prawf cymhwysedd ddibynnu hefyd ar allu plentyn i bwyso a mesur canlyniadau penderfyniad i weithredu mewn un ffordd neu'r llall. Ni ellir penderfynu ar gymhwysedd fel arfer heb ystyried amgylchiadau unigolyn, neu heb wybod pa wybodaeth sydd wedi bod ar gael iddo.

Mae Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn sefydlu hawl plant i fynegi eu hunain o ran egwyddor. Fodd bynnag, ar yr un pryd, mae hefyd yn amodi'r hawl hon drwy gyfyngu ar ddyletswyddau awdurdodau cyfrifol i "blentyn sy'n gallu llunio ei farn ei hun." Mae hyn yn awgrymu bod ffurf arall ar brawf cymhwysedd. Yn yr achos hwn, ar yr amod bod plentyn yn gallu llunio barn am destun apêl bosibl, yna bydd yn gymwys i arfer yr hawl honno ac mae'n rhaid rhoi'r cyfle iddo wneud hynny. Nid yw'r ffaith bod Erthygl 12 yn mynd yn ei blaen i nodi y bydd yr ystyriaeth a roddir i farn plentyn yn dibynnu ar "oedran ac aeddfedrwydd y plentyn" yn rhwystr ynddo'i hun i gyflwyno'r apêl yn y lle cyntaf. Yn hytrach, dyma'r maen prawf lle y caiff cynnwys apêl y plentyn ei asesu yn ddiweddarach yn y broses.

Yng nghyd-destun y DU, mae'r enghreifftiau canlynol yn rhoi darlun o'r amrywiaeth yn yr hyn a ystyrir yn gymhwysedd mewn plant.

- Mae cyfraith gwlad ar hawliau plant yn datgan nad ydynt yn parhau i fod o dan reolaeth eu rhieni hyd at oedran penodol. Yn hytrach, bydd ganddynt yr hawl i wneud eu penderfyniadau eu hunain pan fyddant yn cyrraedd y cyfnod lle y bydd ganddynt ddealltwriaeth a deallusrwydd digonol i allu penderfynu drostynt eu hunain mewn perthynas â'r mater lle y mae angen penderfyniad. Bydd pob achos yn dibynnu ar ei amgylchiadau penodol a'r plentyn dan sylw.
- Ar y cyfan, tueddir i dybio bod pobl dros 16 oed yn gymwys. Yn sicr, maent yn tueddu i fod â mwy o hawliau ffurfiol i apelio na phlant o dan 16 oed. Mae'r rhain yn cynnwys Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a Budd-daliadau fel hawl i apelio i Dribiwnlys Anghenion Cymorth Ychwanegol yr Alban.
- Yng Nghymru, gall plant dros oedran ysgol gorfodol h.y. 16 oed apelio drostynt eu hunain os cânt eu gwahardd o ysgol a gynhelir gan AALl. Gall plant rhwng 11 a 16 oed apelio drostynt eu hunain hefyd ar yr amod y rhoddir caniatâd rhieni.
- Gall plant o "oedran a dealltwriaeth ddigonol" (sydd efallai mor ifanc ag 11 neu 12 oed) gyflwyno cais am orchymyn preswylio (gyda phwy y mae'r plentyn am fyw) neu gais i gael cysylltiad (pwy y mae'r plentyn am ei weld) o dan Ddeddf Plant 1989.

- Mae ceisiadau plant am Gymorth Cyfreithiol yn amodol ar brawf cymhwysedd: a yw'r plentyn yn ddigon hen i roi cyfarwyddiadau a deall natur y gwaith a wneir? Fodd bynnag, o fewn proses cyfreitha sifil, mae angen cyfaill cyfreitha ar bob plentyn o dan 18 oed i weithredu ar ei ran oni fydd y Llys yn penderfynu fel arall.
- Tybir bod plant sydd am apelio i Dribiwnlys yr Adolygiad Iechyd Meddwl, yn rhinwedd eu cadwraeth, yn anghymwys ac felly gwarentir cynrychiolaeth annibynnol iddynt.

4.2 Beth ddylai prawf cymhwysedd ei gynnwys?

Bydd plant ag anghenion addysgol arbennig, hyd yn oed os ydynt o'r un oedran cronolegol, yn amrywio'n fawr o ran eu gallu i wneud penderfyniadau cymwys. Mae angen i asesiadau o anghenion cymhwysedd fod yn sensitif i'r materion penodol y mae'r plentyn yn eu hwynebu. Efallai y bydd plentyn, er enghraifft yn dangos cymhwysedd o ran deall a chwestiynu cynnwys asesiad statudol ond efallai na chaiff y cymhwysedd hwnnw ei ymestyn i gynnwys gallu i gynrychioli ei achos mewn Tribiwnlys.

Mae hyn yn dangos gofyniad posibl am gynnal profion gwahanol am gymhwysedd ar adegau gwahanol yn ystod y broses. Er enghraifft, efallai y bydd y trothwy ar gyfer penderfynu ar gymhwysedd o ran p'un a ddylid cynghori plentyn am ei hawl i apelio ac a all apelio yn y lle cyntaf fod yn is na'r trothwy a bennwyd gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i asesu cymhwysedd mewn cais am arian cyhoeddus.

Gellid penderfynu cynnal prawf cymhwysedd ar sail oedran yn unig. Er enghraifft, tybir bod plant sy'n hŷn nag oedran penodol yn gymwys ac felly byddai ganddynt hawl i apelio. Fel arall, gallai'r prawf gynnwys cyfuniad o oedran a ffactorau eraill e.e. tybir bod plant sy'n hŷn nag oedran penodol yn gymwys, ond y byddai angen i blant sy'n iau na hynny fodloni prawf cymhwysedd yn seiliedig ar ffactorau eraill megis y gallu i lunio barn a/neu i ddeall a chydnabod canlyniadau'r hyn y maent yn ei wneud. Yn olaf, gallai'r prawf gynnwys y ffactorau hyn yn unig heb fod yn seiliedig ar oedran o gwbl.

Ar ba ffurf bynnag y bydd y prawf cymhwysedd bydd angen iddo adnabod a darparu ar gyfer amryw o ffyrdd y gall plant ddewis mynegi eu hunain. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb ag Erthygl 13 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig sy'n datgan: *shall the right to freedom of expression; this right shall include freedom to seek, receive and impart information and ideas of all kinds…. either orally, in writing or in print, in the form of art, or through any other media of the child's choice.*

Cwestiwn 2. Wrth benderfynu ar allu plentyn i arfer ei hawl i apelio,

a) beth ddylai'r prawf cymhwysedd i blant ag anghenion addysgol arbennig ei gynnwys?

b) a ddylid gosod trothwy is ar gyfer prawf cymhwysedd na'r un a gymhwysir ar gyfer Cymorth Cyfreithiol (yn fyr, bod plentyn yn gallu rhoi cyfarwyddiadau)? Gweler hefyd adran 5.4

4.3 Pwy ddylai benderfynu ar gymhwysedd?

Gallai fod yn anodd canfod un prawf cymhwysedd a allai fod yn berthnasol i bob plentyn ar bob cam o'r broses apelio. Er mwyn ategu'r ffactorau sy'n gysylltiedig â barnu cymhwysedd, bydd pwy a fydd yn penderfynu ar gymhwysedd hefyd yn bwysig.

Yn ddelfrydol gallai penderfynu ar gymhwysedd yn ystod pwyntiau allweddol yn y broses fod yn ymdrech ar y cyd yn ymwneud â'r plentyn ac oedolion arwyddocaol eraill sy'n adnabod y plentyn yn dda, yn ogystal ag unrhyw ddarparwr gwasanaethau

eiriolaeth arbenigol. Mae consensws am gymhwysedd yn debygol o fod yn werthfawr i'r plentyn a bydd yn helpu i ategu'r dilyniant o effeithiau a fydd yn deillio ohono. Yn sicr, byddem yn rhagweld lle y ceir achosion yn ymwneud ag eiriolwyr arbenigol, y byddant yn mynd ati i adeiladu'r consensws hwnnw o'r dechrau.

Fodd bynnag, cyfyd problem hefyd o ran yr hyn a fydd yn digwydd lle na chaiff anghydfod yn ymwneud â chynhwysedd ei ddatrys (er enghraifft cyn i apêl gael ei chofrestru hyd yn oed), Efallai mai'r ffordd orau o ddatrys anghydfod fyddai gofyn i unigolyn penodol arall ei ddatrys, er enghraifft Cymrodeddwr, neu i asiantaeth ddatrys yr hyn a allai fod yn nifer fach o anghydfodau yn ymarferol ond a fydd er hynny â goblygiadau pwysig i'r plentyn.

Cwestiwn 3 A oes agweddau eraill ar gymhwysedd i blant ag anghenion addysgol arbennig y dylem eu hystyried?

Cwestiwn 4 Pwy ddylai benderfynu ar gymhwysedd a phryd yn ystod y broses apelio y dylai benderfynu?

Cwestiwn 5 Os bydd anghydfod cyn i apêl gael ei chyflwyno i'r TAAAC am b'un a yw plentyn yn gymwys, pwy ddylai wneud y penderfyniad terfynol?

5 GOBLYGIADAU YCHWANEGOL I'R HAWL I APELIO'N YMARFEROL

Yn yr adran hon byddwn yn ystyried nifer o oblygiadau ymarferol (y tu hwnt i gwestiynau yn ymwneud â chymhwysedd) i'r hawl hon i apelio.

5.1 Penderfyniad y rhiant/rhieni

Ar hyn o bryd, dewis y rhieni yw'r hawl i apelio a bydd yn parhau i fod felly o dan y cynnig hwn. Mae'r ffaith y byddai hawl y plentyn yn amodol ar ddewis ei rieni i beidio ag apelio yn golygu y byddai angen i'r AALl ystyried yn ofalus iawn y ffordd y mae'n sicrhau bod hawl plentyn i apelio ar gael. Rydym yn ymwybodol bod rhai AALlau eisoes yn siarad yn rheolaidd â rhieni ac yn egluro'r penderfyniadau y mae'r Awdurdod wedi'u gwneud.

Yn ystod unrhyw gam o'r broses asesu a gwneud datganiad, lle y mae'n rhaid i'r AALl hysbysu rhiant o'i hawl i apelio, bydd angen i'r AALl ganfod p'un a yw'r rhiant yn bwriadu arfer yr hawl honno ac os nad yw am wneud hynny, y ffordd orau o ymgysylltu â'r plentyn a'i rieni.

Gallai hyn fod yn gymharol hawdd mewn rhai sefyllfaoedd. Er enghraifft, gallai rhiant ymateb yn gadarnhaol drwy ddweud "Cadarnhaf nad wyf yn bwriadu arfer fy hawl i apelio". Yna efallai y bydd y rhiant, pan fydd yr AALl yn ei holi, yn mynd yn ei flaen i ddweud "...a deallaf y gall fy mhlentyn ddewis nawr p'un a yw am ddefnyddio ei hawl i apelio". Efallai hefyd y bydd y rhiant yn cytuno y byddai'n ddefnyddiol trefnu cyfarfod gydag eiriolwr arbenigol a byddai'r broses yn symud ymlaen.
Fodd bynnag, beth ddylai ddigwydd mewn sefyllfaoedd lle na fydd rhiant yn apelio a lle nad yw'n ymateb i ymdrechion AALl i gadarnhau ei benderfyniad neu i gael trafodaeth am ei blentyn? A ddylai fod angen i AALlau geisio caniatâd rhieni er mwyn caniatáu i'w plentyn apelio neu a fyddai'r ffaith nad yw'r rhieni wedi apelio yn ddigon? Sut y gallai'r AALl fod yn sicr bod y plentyn yn ymwybodol o'i hawl neu mewn sefyllfa i'w harfer? Nid oes unrhyw atebion hawdd yma. Efallai y bydd angen i'r AALl mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol sy'n adnabod y rhieni yn dda (er enghraifft athro ysgol) ymdrechu'n galed i ymgysylltu â'r rhieni. Efallai y bydd hyn yn cymryd mwy o amser ond bydd o leiaf yn sicrhau y caiff y plentyn y cyfle gorau posibl i arfer ei hawl. Lle y

bydd y dull hwn yn methu neu lle bydd rhieni yn gwrthod cydweithredu'n gyfan gwbl, yna bydd angen i'r AALl ei hun ystyried p'un a yw anghenion hanfodol y plentyn yn cael eu diogelu'n ddigonol gan y rhiant.

Cwestiwn 6. Beth yw'r ffordd orau i AALlau sicrhau bod plentyn ag anghenion addysgol arbennig yn ymwybodol o'i hawl i apelio?

5.2 Diwylliant cyfranogi o fewn darpariaeth anghenion addysgol arbennig

Mae hawl plant i apelio i'r TAAAC yn rhan o ymrwymiad ehangach i annog plant ag anghenion addysgol arbennig i gyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Nodir yr uchelgeisiau hyn, yn benodol, ym mhennod tri - Cyfranogiad Disgyblion - o'r Cod Ymarfer. I wireddu'r uchelgeisiau hyn bydd angen i fwy o blant gymryd rhan yn y broses anghenion addysgol arbennig, yn bennaf gan y bydd llawer o blant yn dewis peidio ag apelio - neu gan na fyddant yn gallu apelio o bosibl.

Mae llawer o bobl o'r farn bod y gofyniad presennol sy'n nodi y dylai awdurdodau addysg lleol "ystyried" y Cod Ymarfer yn annigonol. Efallai y bydd ei statws fel canllaw yn arwain at achosion o beidio â chydymffurfio ac felly gallai gyflwyno risgiau o ran diogelu hawliau, sylwadau a dymuniadau plant. Caiff y mater hwn ei ystyried gan randdeiliaid allweddol fel rhan o'r adolygiad o'r asesiad statudol a'r fframwaith ar gyfer paratoi datganiadau a gynhelir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gallai atgyfnerthu cynnwys a statws y Cod Ymarfer gynnwys adolygiad o bennod tri. Ar wahân i iaith a statws, gallai diwygiadau gynnwys tystiolaeth ehangach o ddulliau arfer gorau o annog plant i gymryd rhan a chanllawiau ar ansawdd adroddiadau yn ymwneud â dymuniadau a theimladau plant.

Ar hyn o bryd mae'n rhaid i AALlau hysbysu rhieni o drefniadau y maent wedi'u gwneud i Wasanaethau Partneriaethau Rhieni a Gwasanaethau Datrys Anghydfod.

Disgwylir i Wasanaethau Partneriaethau Rhieni roi gwybodaeth ddiduedd i rieni ar yr holl weithdrefnau AAA a amlinellir yn y ddeddfwriaeth a'r Cod Ymarfer. Mae'n rhaid hefyd iddynt wneud eu gorau glas i sicrhau bod pob rhiant yn gallu cael gafael ar "Gefnogwr Annibynnol i Rieni" os ydynt am wneud hynny.

Mae Gwasanaethau Datrys Anghydfod yn bodoli i ddatrys unrhyw wahaniaeth barn naill ai cyn i apêl gael ei gwneud neu ochr yn ochr â'r broses apelio.

Yn ystod pob cam o'r broses apelio lle y mae angen i AALlau roi gwybod i rieni am eu hawl i apelio, mae angen i AALl hefyd roi gwybod i rieni am eu hawl i ddefnyddio'r trefniadau hyn. Cynigir y dylai'r gofyniad hwn gael ei ymestyn i blant o dan yr hawl arfaethedig i apelio. Ceir tystiolaeth i ddangos y gall cynnwys plant mewn ymdrechion cyfryngu fod yn hynod gynhyrchiol.

Cwestiwn 7. Beth arall y gellid ei wneud i sicrhau bod mwy o blant ag anghenion addysgol arbennig yn cymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau?

Cwestiwn 8. Beth yw'r prif rwystrau i gynnwys plant mewn prosesau datrys anghydfod, a sut y gellid datrys y rhain yn eich barn chi?

Cwestiwn 9 Beth yw goblygiadau ymestyn mynediad plant at Wasanaethau Partneriaeth a Chefnogwyr Annibynnol? Sut y gallwn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau effeithiol i blant?

5.3 Cefnogi plant - yr angen am eiriolaeth annibynnol

Bydd angen darparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ac arbenigol yn ogystal â gwybodaeth, ethos a systemau sy'n briodol ac yn addas i blant er mwyn sicrhau bod yr hawl i apelio yn effeithiol i blant. Gall rhieni fod o dan straen pan fyddant yn herio'r broses anghenion addysgol arbennig a/neu'n mynd ag achos i'r tribiwnlys. Mae hyn yn awgrymu y bydd angen i blant gael cymorth cyn apêl, yn ystod apêl ac ar ei hôl. Drwy ddiffiniad, mae apêl yn deillio o wrthdaro rhwng teuluoedd ac AALlau neu ysgolion. Efallai y bydd plant yn profi gwrthdaro â gweithwyr proffesiynol yn ogystal â'u rhieni. Efallai y bydd angen i blant wneud asesiadau a allai fod yn anodd i sicrhau cydbwysedd rhwng buddiannau eu bywydau teuluol a'u bywydau yn yr ysgol.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw hawl statudol i eiriolaeth mewn achosion apelio i blant ag anghenion addysgol arbennig. Fodd bynnag nodwyd y grŵp hwn o blant fel grŵp blaenoriaeth i gael hawl i ddefnyddio'r Gwasanaeth Eirioli Arbenigol Integredig yng Nghymru. Caiff y Gwasanaeth Eirioli Arbenigol Integredig ei gomisiynu gan Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc o 2009. Cynigir y caiff y canllawiau ar drefniadau newydd y Gwasanaeth Eirioli Arbenigol Integredig eu cyhoeddi gan Lywodraeth y Cynulliad yn ddiweddarach yr haf hwn. Cydnabyddwn y bydd sicrhau bod darpariaeth ar gael ar gyfer eiriolaeth a sicrhau ei bod yn gwbl hygyrch yn hanfodol er mwyn gweithredu hawl plant i apelio'n effeithiol.

Mae eiriolwyr arbenigol yn bobl â phrofiad o siarad â phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig yn ogystal â chyfathrebu â hwy. Byddant hefyd yn deall y gyfraith, sut mae'r broses apelio'n gweithio a'r hyn y gall y TAAAC ei wneud a'r hyn na all ei wneud. Credwn y bydd eiriolwyr arbenigol yn bwysig o ran diwallu anghenion plant am sawl rheswm:

- Efallai y bydd plant am siarad â rhywun sy'n annibynnol ac nad oes ganddo unrhyw ddiddordeb uniongyrchol, ffurfiol yn y penderfyniad i wneud apel nau peidio. Efallai y bydd angen cyngor ar ganlyniadau posibl apêl arnynt neu ei heffeithiau posibl. Er enghraifft, efallai y bydd gan blant bryderon am siomi eu rhieni neu eu hathrawon yn yr ysgol os byddant yn cyflwyno apêl.
- Nid yw deall sut mae'r system apelio'n gweithio bob amser yn hawdd. Mae'r broses gyfan yn anodd i lawer o rieni a gweithwyr proffesiynol ac nid yw'n debygol o fod yn haws i blant chwaith.
- Mae angen cymorth ar bawb bron i baratoi'r holl bapurau ar gyfer apêl.
- Efallai y bydd rhai plant yn teimlo'n gyfforddus â'r syniad o fynd i wrandawiad TAAAC ar eu pennau eu hunain ond credwn y bydd y rhan fwyaf o blant am i'r eiriolwr a/neu'r cynrychiolydd sydd wedi'u helpu fod yno hefyd. Efallai y bydd rhai plant am fynd i wrandawiad ond yn gofyn i'w heiriolwr a/neu eu cynrychiolydd siarad ar eu rhan am y rhan fwyaf o'r amser neu'n gyfan gwbl.
- Ar ôl i wrandawiad yr apêl ddod i ben, efallai y bydd angen help a chymorth ar blant er mwyn iddynt ddeall y penderfyniad a wnaed gan y TAAAC a'r hyn y bydd yn ei olygu iddynt.

Cwestiwn 10. Sut y dylai'r hawl i apelio gael ei hyrwyddo gan AALlau a'r TAAAC fel bod plant *yn gyffredinol* yn ymwybodol o'r hawl?

Cwestiwn 11. Beth yw'r ffordd orau o roi cymorth i blant ag anghenion addysgol arbennig cyn yr apêl, yn ystod yr apêl ac ar ei hôl?

Cwestiwn 12. Beth y dylem ei ystyried er mwyn sicrhau bod darpariaeth eirioli ar gael i blant sy'n gwneud apêl i'r TAAAC?

Cwestiwn 13. Beth yw'r prif ofynion o ran hyfforddiant ac anodau i helpu plant i fanteisio ar eu hawl i apelio a'i defnyddio'n llawn?

5.4 Cymorth Cyfreithiol

Mae cymorth cyfreithiol ar gael gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol er mwyn cefnogi hawl plentyn i apelio i'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig. Mae Cymorth Cyfreithiol ar gael i bob ymgeisydd sy'n gwneud cais i'r tribiwnlys ar yr amod y caiff meini prawf penodol eu bodloni (gweler isod). Bydd Cymorth Cyfreithiol yn ariannu cyfreithiwr i roi cyngor cyfreithiol, paratoi achos a sicrhau adroddiadau gan arbenigwyr ond ni fydd yn cynnwys cynrychiolaeth gerbron y tribiwnlys.

Nid oes dim yn atal plentyn rhag gwneud cais am Gymorth Cyfreithiol drosto ei hun, ar yr amod ei fod yn gymwys i wneud hynny. Fel rhan o'r prawf cymhwysedd hwn bydd angen i'r plentyn allu rhoi cyfarwyddiadau a dangos ei fod yn deall natur y gwaith a ariennir. Bydd angen i rywun wneud cais ar ran plant na fyddant yn bodloni prawf dau gam y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol Mae eiriolwyr arbenigol annibynnol sy'n gweithredu fel "cyfaill agosaf" i'r plentyn yn bodloni gofynion rheolau cymorth cyfreithiol a byddai ganddynt hawl i wneud cais am gymorth cyfreithiol.

Mae pob cais am Gymorth Cyfreithiol yn amodol ar asesiad ariannol o fodd plentyn. Fel arfer seilir hawl i gael arian ar asesiad o fodd cartref, nid o fodd y plentyn oni chadarnheir bod gwrthdaro buddiannau.

Mae'n amlwg y byddai gan y mwyafrif helaeth o blant a gâi eu hasesu ar sail eu modd yn unig hawl i gael cymorth cyfreithiol. Mae hyn yn codi perygl posibl "apeliadau drwy ddirprwy" - sef apeliadau rhieni a wneir yn enw'r plentyn ac y gallai'r plentyn gytuno neu anghytuno â hwy. Mae'n anodd mesur pa mor arwyddocaol y gallai'r perygl hwn fod. Gallai rhiant fod o'r farn bod apêl a wneir gan ei blentyn yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus o ran sicrhau'r penderfyniad y mae am ei gael (y rhiant). Mae'n anodd canfod ateb a fyddai'n cael gwared ar bob risg o gamddefnyddio apeliadau drwy ddirprwy heb gyfyngu ymhellach ar hawl plant i gael cynrychiolaeth annibynnol.

Fel y soniwyd, nid oes arian cyhoeddus ar gael fel arfer i ariannu cynrychiolaeth gerbron tribiwnlys. Mae hyn yn wir p'un a yw'r cleient yn oedolyn neu'n blentyn. Fodd bynnag, gellir gwneud cais am "Arian Eithriadol" i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Ni chaiff y rhain eu caniatáu fel arfer oni fyddai penderfyniad i beidio â rhoi arian yn groes i hawl ddynol plentyn i gael gwrandawiad teg.

Cwestiwn 14. Beth y gellid ei wneud i sicrhau bod plant yn gwybod am Gymorth Cyfreithiol a'u bod yn gallu cael gafael arno lle y bydd ei angen?

Cwestiwn 15. Os na ellir cynrychioli plentyn drwy Gymorth Cyfreithiol, sut y dylid cynrychioli'r plentyn a pha faterion o ran arian, os o gwbl, y dylid eu hystyried?

Cwestiwn 16. A oes camau ychwanegol y dylid eu cymryd i leihau'r posibilrwydd o "apeliadau drwy ddirprwy"?

5.5 Sut y byddwn yn gwybod a yw'r newid hwn yn gwneud gwahaniaeth?

Mae plant hefyd wedi dweud wrthym eu bod am i ni wrando arnynt a'u bod yn gwerthfawrogi cael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae plant hefyd yn dweud wrthym weithiau nad yw'r ffaith bod pobl yn gwrando arnynt ac yn eu cynnwys yn newid unrhyw beth mewn gwirionedd. Fel gydag unrhyw fenter newydd, rydym am fesur ei heffaith drwy wrando ar blant, eu teuluoedd a phob gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu gwasanaethau i blant ag anghenion addysgol arbennig. Rydym wedi nodi tri maes penodol i'w hadolygu y teimlwn y gallent roi darlun dibynadwy o sut mae'r hawl hon i blant yn gweithio'n ymarferol mewn gwirionedd. Ymhlith y tri maes hyn mae:

- P'un a yw'r hawl i apelio a rheoliadau'r Tribiwnlys AAA yn annog plant i gyfrannu at wneud penderfyniadau fel rhan o'r broses apelio?
- P'un a yw darpariaethau ar gyfer eiriolaeth arbenigol yn sicrhau bod plant yn gallu manteisio'n llawn ar y broses apelio?
- Beth yw effaith hawl y plentyn i apelio ar wneud penderfyniadau drwy'r broses o asesu anghenion addysgol arbennig, paratoi datganiadau ac apelio?

Cwestiwn 17. Pa wybodaeth y byddai angen ei chasglu, sut a chan bwy, i asesu'r tri maes adolygu hyn?

Cwestiwn 18. A oes unrhyw feysydd eraill y dylid eu hasesu i benderfynu ar effaith yr hawl i apelio?